# It's time to rhyme!

Pori Drwy Stori



**Name:**

**Flip for Welsh**
**Trowch i weld y Gymraeg**

CE

Batch no: 89339.
Whitehall Printing Co (Avon), BS5 0BW

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

# Mae'n amser rhigwm!

Pori Drwy Stori



**Enw:**

**Trowch i weld y Saesneg**
**Flip for English**

CE

Batch no: 89339.
Whitehall Printing Co (Avon), BS5 0BW

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

# How to use this Rhyme Calendar

Saying rhymes together and singing simple songs are great ways to have fun with your child.

Rhymes help children understand how language works. They help children to learn the different sounds in a language, to feel its rhythm and to have fun with words. These things will really help your child to **read**, **talk** and **write**.

Every week you will receive a special rhyme card. All the rhymes are in this calendar.

There are also videos of the rhymes for you to enjoy. Find them by scanning the QR code.

You can say rhymes together anywhere and at any time.

Take this calendar with you when you go out and share rhymes together!





Have fun and happy rhyming!

# Sut i ddefnyddio'r Calendr Rhigwm hwn

Mae adrodd rhigymau gyda'ch gilydd a chanu caneuon syml yn ffyrdd gwych o gael hwyl gyda'ch plentyn.

Mae rhigymau'n helpu plant i ddeall sut mae iaith yn gweithio. Maen nhw'n helpu plant i ddysgu gwahanol synau iaith, teimlo'i rhythm a chael hwyl gyda geiriau. Bydd y pethau hynny'n helpu'n fawr iawn i gael eich plentyn i ddarllen, siarad ac ysgrifennu.

Bob wythnos byddwch chi'n derbyn cerdyn rhigwm arbennig. Mae pob un o'r rhigymau yn y calendr hwn.

Mae fideos o'r rhigymau ar gael i chi eu mwynhau hefyd. Sganiwch y côd QR. Gallwch ddweud rhigymau gyda'ch gilydd unrhyw bryd ac yn unrhyw le.

Ewch â'r calendr hwn gyda chi pan ewch chi allan, er mwyn rhannu'r rhigymau gyda'ch gilydd!







Cofiwch gael sbort gyda'r rhigymau!

# Top tips for having fun with rhymes



1. Say the rhymes slowly at first. This will help your child really hear and learn the different words and give them time to join in. Increase the speed when your child knows the rhyme!

2. Don't worry if your child doesn't join in at first. It's good for them to listen, too.

3. When you say the rhymes it helps your child if they can see your face and how you move your mouth.

4. Change your voice as you say the rhymes. Make it loud or quiet, fast or slow or high and low. Ask your child to change their voice, too. This will help them learn to listen.

5. When your child knows the rhyme, let them finish the line themselves. Stop and let them say the rest!

6. Don't worry if you're not a fluent Welsh speaker – give the Welsh rhymes a go and have some fun!

# Cynghorion gwych am sut i gael sbort gyda rhigymau



1. Dywedwch y rhigymau'n araf i ddechrau. Bydd hyn wir yn helpu eich plentyn i glywed a dysgu'r geiriau gwahanol, ac yn rhoi cyfle iddo ymuno. Ewch yn gyflymach pan fydd eich plentyn yn gwybod y rhigwm!

2. Peidiwch â gofidio os nad yw eich plentyn yn ymuno i ddechrau. Mae'n beth da ei fod yn gwrando hefyd.

3. Pan fyddwch chi'n dweud y rhigymau, mae'n help os gall eich plentyn weld eich wyneb a sut rydych chi'n symud eich ceg.

4. Newidiwch eich llais wrth i chi ddweud y rhigymau. Gwnewch lais swnllyd neu dawel, cyflym neu araf, uchel neu isel. Gofynnwch i'ch plentyn newid ei lais hefyd. Bydd hyn yn ei helpu i ddysgu gwrando.

5. Pan fydd eich plentyn yn gwybod y rhigwm, gadewch iddo orffen y llinell ei hun. Stopiwch a gadewch i'r plentyn ddweud y gweddill!

# Five Little Ducks Went Swimming One Day

**(Pum Hwyaden)**

**Five** little ducks went swimming one day,
Over the hill and far away.
Mother duck said 'quack quack quack quack'
And only **four** little ducks came back!

**Four** little ducks went swimming one day,
Over the hill and far away.
Mother duck said 'quack quack quack quack'
And only **three** little ducks came back!


*(Repeat the verse and count down to...)*

**One** little duck went swimming one day,
Over the hill and far away.
Mother duck said 'quack quack quack quack'
And all her **five** little ducks came back!

Week 1 Wythnos 1

**Number rhymes**

**Rhigymau rhif**



## Other fun number rhymes to enjoy!

Rhigymau rhif hwyliog eraill i'w mwynhau!

'Five Red Apples' & 'One, Two, Buckle my Shoe'.

Enjoy this rhyme at
Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

# Pum Hwyaden
## (Five Little Ducks)

**Pum** hwyaden aeth i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn,
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -
'**Pedair** sydd ar ôl cwac, cwac!'

*(Ailadroddwch bob pennill nes...)*

**Un** hwyaden aeth i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn,
gwaeddodd Mam yn ddigon crac -
'Does yr un ar ôl! O! cwac, cwac, cwac!'

Mami aeth am dro i'r llyn,
traed bach du a phlu bach gwyn.
Gwaeddodd Mam, 'Dewch, cwac,cwac,cwac!'
Daeth pawb yn ôl, pob un wan jac!

Wythnos 1 Week 1
**Rhigymau rhif**
**Number rhymes**



## Rhigymau rhif hwyliog eraill i'w mwynhau!
Other fun number rhymes to enjoy!

'Pump Afal Coch' ac 'Un Bys, Dau Fys, Tri Bys yn Dawnsio'.

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

Week 2 Wythnos 2

# Action rhymes

**Rhigymau gweithredu**

## Teddy Bear, Teddy Bear

**(Arth Fach, Arth Fach)**

Teddy bear, teddy bear,
**Turn around!**
Teddy bear, teddy bear,
**Touch the ground!**
Teddy bear, teddy bear,
**Jump up high!**
Teddy bear, teddy bear,
**Touch the sky!**

Teddy bear, teddy bear,
**Bend down low!**
Teddy bear, teddy bear,
**Touch your toes!**
Teddy bear, teddy bear,
**Turn out the light!**
Teddy bear, teddy bear,
**Say good night!**



## Other action rhymes to enjoy!

Rhigymau gweithredu eraill i'w mwynhau!

'Open Them, Shut Them' & 'One Finger, One Thumb, Keep Moving'.

Enjoy this rhyme at
Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

Wythnos 2 Week 2

## Rhigymau gweithredu

Action rhymes

# Adeiladu Tŷ Bach, Un, Dau, Tri

## (Build a Little House, One Two, Three)

Adeiladu tŷ bach, un, dau, tri,

To ar ei ben o, a dyna ni.

Edrych mewn trwy'r ffenest,

Be welwn ni?

Llygoden fach yn cysgu... shhh, da chi!

Llygoden fach yn cysgu yn y tŷ,

Llygoden fach yn deffro!

Ffwrdd â hi!



## Rhigymau gweithredu eraill i'w mwynhau!

Other action rhymes to enjoy!

'Un Bys Un Bawd yn Symud' a 'Ble mae Bawdyn'?

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar

Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

Week 3 Wythnos 3

## Animal rhymes

**Rhigymau anifeiliaid**

# Old MacDonald Had A Farm

**(Fferm Tad-cu)**

Old MacDonald had a farm, E-I-E-I-O,
And on that farm he had some cows, E-I-E-I-O,
With a '**moo moo**' here and a '**moo moo**' there,
Here a '**moo**', there a '**moo**', everywhere a '**moo moo**',
Old MacDonald had a farm, E-I-E-I-O.

Old MacDonald had a farm, E-I-E-I-O,
And on that farm he had some sheep, E-I-E-I-O,
With a '**baa baa**' here and a '**baa baa**' there,
Here a '**baa**', there a '**baa**', everywhere a '**baa baa**',
Old MacDonald had a farm, E-I-E-I-O.

*(You can repeat with any animal you like).*



## Other animal rhymes to enjoy!

Rhigymau anifeiliaid eraill i'w mwynhau!

'Horsey, Horsey' & 'I Went to the Farm One Day'.

Enjoy this rhyme at
Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

# Fferm Tad-cu
## (Old MacDonald Had a Farm)

Dewch am dro i fferm Tad-cu,
I - AI - I - AI - O.
Ac ar y fferm mae dafad wen,
I - AI - I - AI - O.
Gyda '**mê**' fan hyn a '**mê**' fan draw
a '**mê, mê, mê, mê**', ar bob llaw.
Dewch am dro i fferm Tad-cu
I - AI - I - AI - O.

Dewch am dro i fferm Tad-cu,
I - AI - I - AI - O.
Ac ar y fferm mae mochyn pinc,
I - AI - I - AI - O.
Gyda '**soch**' fan hyn a '**soch**' fan draw
a '**soch**, **soch**, **soch**, **soch**', ar bob llaw.
Dewch am dro i fferm Tad-cu
I - AI - I - AI - O.

Dewch am dro i fferm Tad-cu,
I - AI - I - AI - O.
Ac ar y fferm mae buwch fawr ddu,
I - AI - I - AI - O.
Gyda '**mŵ**' fan hyn a '**mŵ**' fan draw,
a '**mŵ, mŵ, mŵ, mŵ**' ar bob llaw.
Dewch am dro i fferm Tad-cu
I - AI - I - AI - O.

Wythnos 3 Week 3

**Rhigymau anifeiliad**

**Animal rhymes**



## Rhigymau anifeiliaid eraill i'w mwynhau!

Other animal rhymes to enjoy!

'Hen Frân Fawr Ddu' a 'Llwynog Coch sy'n Cysgu'.

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

Week 4 Wythnos 4

## Nursery rhymes

**Hwiangerddi**

# Little Miss Muffet

## (Miss Fach Muffet)

Little Miss Muffet sat on a tuffet,
Eating her curds and whey.
Along came a spider,
Who sat down beside her,
And frightened Miss Muffet away.





### Other nursery rhymes to enjoy!

Hwiangerddi eraill i'w mwynhau!

'Humpty Dumpty' & 'Jack and Jill'.

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

Wythnos 4 Week 4

**Hwiangerddi**

**Nursery rhymes**

# Ji Ceffyl Bach

## (Gee Up Neddy)

Ji ceffyl bach yn cario ni'n dau,
Dros y mynydd i hela cnau,
Dŵr yn yr afon a'r cerrig yn slic,
Cwympo ni'n dau, wel dyna i chi dric!

Cwyd Robin bach a saf ar dy draed,
Sych dy lygaid, anghofia'r gwaed,
Neidiwn ein dau ar ein ceffyl bach gwyn,
I fyny'r mynydd ac i lawr y glyn.

Ji ceffyl bach dros frigau y coed,
Fel tylwyth teg mor ysgafn dy droed,
Carlam ar garlam ar y cwmwl mawr gwyn,
Naid dros y lleuad ac i lawr at y llyn.



## Hwiangerddi eraill i'w mwynhau!

Other nursery rhymes to enjoy!

'Mynd Drot Drot' a 'Dacw Mam yn Dŵad'.

Gallwch fwynhau'r rhigwm hwn ar
Enjoy this rhyme at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

Week 5 Wythnos 5

# Rhymes all day

## Rhigymau drwy'r dydd

## This Is The Way We Brush Our Teeth

### (Dyma Sut Mae Brwsio Dannedd)

This is the way we **brush** our teeth,
**Brush** our teeth, **brush** our teeth.
This is the way we **brush** our teeth
On a warm and sunny morning.

This is the way we **wash** our face,
**Wash** our face, **wash** our face.
This is the way we **wash** our face
On a warm and sunny morning.

This is the way we **comb** our hair,
**Comb** our hair, **comb** our hair.
This is the way we **comb** our hair
On a warm and sunny morning.



## Ten Little Fingers, Ten Little Toes

### (Deg Bys Bychan, Deg Bys Bach Troed)

Ten little fingers, ten little toes,
Two little ears and one little nose,
Two little eyes that shine so bright,
And one little mouth,
To kiss you, good night!



## Other rhymes to enjoy all day long!

Rhigymau eraill i'w mwynhau drwy'r dydd!

'Star Light, Star Bright' & 'Twinkle, Twinkle Little Star'.

Enjoy these rhymes at
Gallwch fwynhau'r rhigymau hyn ar

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

Wythnos 5 Week 5

# Rhigymau drwy'r dydd
## Rhymes all day



## Heno, Heno
### (Tonight, Tonight)

Heno, heno, hen blant bach,
Heno, heno, hen blant bach.
Dime, dime, dime, hen blant bach,
Dime, dime, dime, hen blant bach.

Gwely, gwely, hen blant bach, *(ailadrodd)*
Dime, dime, dime, hen blant bach *(ailadrodd).*

Cysgu, cysgu, hen blant bach, *(ailadrodd)*
Dime, dime, dime, hen blant bach *(ailadrodd).*

'Fory, 'fory, hen blant bach, *(ailadrodd)*
Dime, dime, dime, hen blant bach *(ailadrodd).*

## Yn y Bore
### (In the Morning)

Yn y bore - dyma fi,
Molchi, molchi, un dau tri.
Bwyta brecwast - dyma fi,
Golchi dannedd, un dau tri.
Gwisgo'n sydyn - dyma fi,
Sanau, 'sgidiau - ffwrdd â fi!



## Rhigymau eraill i'w mwynhau drwy'r dydd!

Other rhymes to enjoy all day long!

'Golchi Dwylo' a 'Si Hei Lwli'.

Gallwch fwynhau'r rhigymau hyn ar
Enjoy these rhymes at

**booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery**

© Illustrations by Matt Joyce.

Pori Drwy Stori

This rhyme calendar is part of the Pori Drwy Stori programme. Pori Drwy Stori inspires a love of books, stories and rhymes and supports children to develop speaking, listening and numeracy skills. Your child is taking part in the new Pori Drwy Stori programme for children in Nursery. We hope that you and your child enjoy sharing these rhymes together. When your child is in Reception, you will also have fun, free Pori Drwy Stori resources to share and enjoy throughout the year from your child's school. Pori Drwy Stori is delivered by BookTrust Cymru and funded by the Welsh Government.

BookTrust is the UK's largest children's reading charity. Each year we reach 3.4 million children across the UK with books, resources and support to help develop a love of reading, because we know that reading can transform lives. Our flagship programme Bookstart aims to reach every child in England and Wales. All children in Wales should receive a Bookstart pack from their Health Visitor at 6 months and at 27 months.





**booktrust.org.uk/cymru**

*Rhyme permissions:*

All Welsh Rhymes have been sourced as traditional rhymes or written and translated by Haf Llewelyn and Mali Williams. BookTrust has acted in good faith with every effort to trace copyright holders, obtain permission from them and to ensure that all credits are correct. We apologise for any inadvertent omissions, which will be corrected as soon as possible if notification is given to us in writing.

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

**BookTrust Cymru**
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

© Darluniau gan Matt Joyce.

Pori Drwy Stori

Mae'r calendr rhigwm hwn yn rhan o'r rhaglen Pori Drwy Stori. Mae Pori Drwy Stori'n ysbrydoli cariad at lyfrau, straeon a rhigymau ac mae'n cefnogi plant i ddatblygu sgiliau siarad, gwrando a rhifedd. Mae eich plentyn yn cymryd rhan yn y rhaglen Pori Drwy Stori newydd ar gyfer plant y Meithrin. Gobeithiwn y byddwch chi a'ch plentyn yn mwynhau rhannu'r rhigymau gyda'ch gilydd. Pan fydd eich plentyn yn y Derbyn, byddwch chi hefyd yn derbyn adnoddau Pori Drwy Stori hwyliog, rhad ac am ddim i'w rhannu a'u mwynhau drwy gydol y flwyddyn oddi wrth ysgol eich plentyn. Caiff Pori Drwy Stori ei ddarparu gan BookTrust Cymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

BookTrust yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU. Bob blwyddyn, rydyn ni'n darparu llyfrau, adnoddau a chefnogaeth i 3.4 miliwn o blant ledled y DU er mwyn helpu i ddatblygu cariad at ddarllen, am ein bod ni'n gwybod bod darllen yn gallu trawsnewid bywydau. Bwriad ein rhaglen flaenllaw, Dechrau Da, yw cyrraedd pob plentyn yng Nghymru a Lloegr. Dylai pob plentyn yng Nghymru dderbyn pecyn Dechrau Da gan eu Hymwelydd Iechyd yn 6 mis oed ac eto yn 27 mis oed.





**booktrust.org.uk/cymru**

*Caniatâd y rhigymau:*
Cafwyd yr holl rigymau Cymraeg o ffynonellau traddodiadol, neu cawsant eu hysgrifennu neu gyfieithu gan Haf Llewelyn a Mali Williams. Mae BookTrust wedi gweithredu'n ffyddiog wrth wneud pob ymdrech i geisio dod o hyd i ddeiliaid hawlfraint, cael caniatâd ganddynt a sicrhau bod pob cydnabyddiaeth yn gywir. Ymddiheurwn am unrhyw gamgymeriadau anfwriadol, a gywirir ar y cyfle cyntaf os cawn wybod yn ysgrifenedig amdanynt.

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen